OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 554

# Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cymru) (Diwygio) 2014

## RHAN 3

## Arbedion

**Dehongli**

**3.** Yn y rhan hon o'r Rheoliadau—

ystyr "cynllun 2013" ("*2013 scheme*") yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau 2012 neu sy'n gymwys yn ddiofyn ar 1 Ebrill 2013 yn unol â pharagraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**);

ystyr "Rheoliadau 2010" ("*2010 Regulations*") yw Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010;

ystyr "Rheoliadau 2012" ("*2012 Regulations*") yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012; ac

ystyr "Tribiwnlys Prisio" ("*Valuation Tribunal*") yw Tribiwnlys Prisio Cymru a sefydlwyd o dan reoliad 4 o Reoliadau 2010.

**Darpariaethau arbed**

**4.** Nid yw'r diwygiadau a wneir i Reoliadau 2010 gan reoliad 2 yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw apelau a wneir i'r Tribiwnlys Prisio mewn perthynas ag unrhyw geisiadau a wneir neu ostyngiadau a ddyfernir o dan ddarpariaethau cynllun 2013.

(**1**) 1992 p.14. Mewnosodwyd Atodlen 1B i'r Ddeddf honno gan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p.17).